# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

**Gwybodaeth ychwanegol at y cwestiwn atodol i OAQ22239, a gyhoeddwyd gan Andrew Davies, y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd, ar 25 Chwefror 2003**

**I Janet Ryder:**

Yn y Cyfarfod Llawn ar 5 Chwefror, gofynasoch faint o gyllid nas gwariwyd o'r hen raglenni Amcan 2 (de Cymru ddiwydiannol 1997-99) ac Amcan 5b (Cymru wledig).

Mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn gweithio ar hyn o bryd i gau'r rhaglenni hyn gyda golwg ar gyflwyno hawliadau terfynol cyn dyddiad cau'r Comisiwn Ewropeaidd, sef 31 Mawrth. Ni fydd y ffigurau gwariant terfynol ar gael nes bydd y rhaglenni wedi cau ac y cytunir gyda'r comisiwn ynghylch yr hawliadau a'r addasiadau terfynol. Yn y cyfamser, nid oes gennyf ddim pellach i'w ychwanegu at yr ateb ysgrifenedig (WAQ19817) a roddais i Elin Jones ar y mater hwn yn ystod yr hydref y llynedd.

**Gwybodaeth ychwanegol at y cwestiwn atodol i OAQ22220, a gyhoeddwyd gan Andrew Davies, y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd, ar 25 Chwefror 2003**

**I Jonathan Morgan:**

Ysgrifennaf mewn ymateb i'ch cwestiwn imi yn y Cyfarfod Llawn ar 5 Chwefror ynglŷn â nifer yr ymwelwyr a ddisgwylir ar gyfer Cwpan Ryder yn 2010.

Mae ymchwil Awdurdod Datblygu Cymru i effaith Cwpan Ryder 2010 yn darogan y bydd yr achlysur yn denu hyd at 200,000 o ymwelwyr.